

# Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

## 22 Tachwedd 2021

### SL(6)073 – Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) 2021

#### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforedig, a sefydlwyd trwy reoliadau wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac maent yn cynnwys y prif gynghorau (ac mewn rhai amgylchiadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i:

- ddarparu bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gorfod cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Ddeddf honno; a
- nodi pryd y mae'n rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig bennu ac adolygu ei amcanion llesiant.

Mae'r Rheoliadau'n rhan o becyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn effeithiol.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Dyddiad dod i rym:** 03 Rhagfyr 2021



## **SL(6)074 – Rheoliadau Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Ystyr Corff Cyhoeddus) (Cymru) 2021**

### **Gweithdrefn: Cadarnhaol**

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff corfforedig, a sefydlwyd trwy reoliadau wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac maent yn cynnwys y prif gynghorau (ac mewn rhai amgylchiadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 er mwyn sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig, wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â thir, neu sy'n effeithio ar dir, mewn Parc Cenedlaethol, yn rhoi sylw i'r dibenion a ganlyn:

- (a) cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal; a
- (b) hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal gan y cyhoedd.

Mae'r Rheoliadau'n rhan o becyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn effeithiol.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Dyddiad dod i rym:** 03 Rhagfyr 2021

## **SL(6)075 – Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Rhif 2) (Cymru) 2021**

### **Gweithdrefn: Cadarnhaol**

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn gyrff corfforaethol, a sefydlwyd drwy reoliadau a wneir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac yn cynnwys y prif gynghorau



hynny (ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol mewn rhai amgylchiadau) yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf") er mwyn ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol at y rhestr o awdurdodau perthnasol sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol y sector cyhoeddus.

Mae'r Rheoliadau'n ffurfio pecyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i'r holl Gyd-bwyllgorau Corfforaethol ac yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cydraddoldeb 2010

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 03 Rhagfyr 2021

## **SL(6)076 – Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cyd-bwyllgorau Corfforedig) (Cymru) 2021**

### **Gweithdrefn: Cadarnhaol**

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff corfforedig, a sefydlwyd trwy reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac maent yn cynnwys y prif gynghorau (ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol mewn rhai amgylchiadau) yng Nghymru sydd wedi'u pennu yn y rheoliadau sefydlu.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn deillio o gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y rhestr o awdurdodau perthnasol y mae'n ofynnol iddynt wneud a dangos eu cyfraniad at ddileu tlodi plant yng Nghymru, o dan Reoliadau Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (diwygio'r rhestr o awdurdodau Cymreig) 2021

Mae'r Rheoliadau yn nodi'r gofynion o ran paratoi, adolygu, adnewyddu, cyhoeddi ac arolygu strategaeth tlodi plant y mae'n rhaid ei pharatoi gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig o dan adran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'r Rheoliadau yn nodi hyd y strategaeth gyntaf ar dlodi plant a strategaethau olynol i'w paratoi gan Gyd-bwyllgor Corfforedig, amseriad a dull eu cyhoeddi a'u harolygu, y gofynion o ran adolygu'r strategaeth tlodi plant a'r gofynion ymgynghori

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011 er mwyn datgymhwyso'r rheoliadau hynny i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.



Mae'r Rheoliadau yn rhan o becyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn effeithiol.

**Rhiant-Ddeddf:** Mesur Plant a Theuluoedd 2010, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 03 Rhagfyr 2021

## **SL(6)078 – Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau) 2021**

### **Gweithdrefn: Cadarnhaol**

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforedig, a sefydlwyd trwy reoliadau wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac maent yn cynnwys y prif gynghorau (ac mewn rhai amgylchiadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3) i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig o fewn y diffiniad o "awdurdod cyhoeddus" yn adran 6(9) o'r Ddeddf honno i'w gwneud yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau ("y ddyletswydd bioamrywiaeth"). O ganlyniad i'r rheoliadau hyn, bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru wrth wneud penderfyniadau.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 03 Rhagfyr 2021



## SL(6)079 – Rheoliadau Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Diwygio'r rhestr o awdurdodau Cymreig)

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforedig, a sefydlwyd trwy reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac maent yn cynnwys y prif gynghorau (ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol mewn rhai amgylchiadau) yng Nghymru sydd wedi'u pennu yn y rheoliadau sefydlu.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 er mwyn ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at y rhestr o awdurdodau perthnasol y mae'n ofynnol iddynt wneud a dangos eu cyfraniad at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau'n golygu bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau â phrif gynghorau yng Nghymru yn hyn o beth. Bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, felly, baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru a nodi'r camau gweithredu y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion yn y strategaeth.

Mae'r Rheoliadau yn rhan o becyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn effeithiol.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 03 Rhagfyr 2021

## SL(6)080 – Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn gwneud nifer o ddarpariaethau mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforedig, a sefydlir trwy reoliadau ym mis Mawrth 2021, ac yn cynnwys y prif gynghorau hynny yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sy'n sefydlu pob Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mewn rhai amgylchiadau cynhwysir Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru mewn Cyd-bwyllgor Corfforedig. Lle bo hyn yn wir nodir



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—  
Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

hyn yn y rheoliadau sefydlu perthnasol. Yn ogystal, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gallu cyfethol unigolion i fod yn aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Ar hyn o bryd mae pedwar o Gyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'u sefydlu yng Nghymru: Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin a Chyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain.

Y bwriad cyffredinol wrth sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yw y caiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ei drin fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' neu fel aelod ohono ac y bydd yn ddarostyngedig i raddau helaeth i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu. Mae Rheoliadau Rhif 2 Cyffredinol yn rhan o becyn o ddarpariaeth a diwygiadau annibynnol i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cydbwyllgor Corfforedig yn effeithiol.

Mae'r darpariaethau yn y Rheoliadau Rhif 2 cyffredinol:

- a. yn darparu ar gyfer cychwyn y darpariaethau amrywiol yn y Rheoliadau;
- b. yn darparu bod rhaid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru benodi swyddogion gweithredol penodol, sef Prif Swyddog Gweithredol, Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau penodol i'w harfer gan bob deiliad swydd yn y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn ymestyn cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol i CBCau a'u haelodau;
- c. yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â staff. Er enghraifft, maent yn ymestyn y diffiniad o 'swyddog priodol' yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig a hefyd yn cymhwyso darpariaethau yn Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan ddarparu bod swyddi penodol mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyfyngedig yn wleidyddol. Ni chaiff deiliaid swyddi o'r fath fod yn aelodau o Gyd-bwyllgor Corfforedig, cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru neu awdurdod tân ac achub yng Nghymru;
- d. yn gwneud darpariaeth yn caniatáu i Gyd-bwyllgorau Corfforedig wneud trefniadau i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan is-bwyllgorau, staff neu ar y cyd â Chyd-bwyllgorau Corfforedig eraill neu â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru;
- e. yn gwneud darpariaeth fanwl ynghylch cyfarfodydd a thrafodion Cydbwyllgorau Corfforedig, er enghraifft ynghylch ym mha ffyrdd y cynhelir cyfarfodydd, mynediad y cyhoedd at gyfarfodydd, cyhoeddi papurau a mynediad at ddogfennau cysylltiedig;



- f. yn gwneud nifer o ddiwygiadau amrywiol a chanlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys y rheoliadau sy'n sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig y Canolbarth, y Gogledd, y De-orllewin a'r De-ddwyrain) o ganlyniad i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r darpariaethau eraill yn y Rheoliadau hyn.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 03 Rhagfyr 2021

## **SL(6)081 – Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Ystyr Corff Cyhoeddus) (Cymru) 2021**

### **Gweithdrefn: Cadarnhaol**

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforedig, a sefydlwyd trwy reoliadau wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac maent yn cynnwys y prif gynghorau (ac mewn rhai amgylchiadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 er mwyn sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig, wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â thir, neu sy'n effeithio ar dir mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol, yn rhoi sylw i'r dibenion o gadw a gwella harddwch naturiol yr ardal.

Mae'r Rheoliadau'n rhan o becyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn effeithiol.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Dyddiad dod i rym:** 03 Rhagfyr 2021



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—  
Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**